



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Meddwl yn unedig ynghylch coed trefol

Mae Coed Aber, Aberystwyth yn arddangos
manteision niferus plannu coed mewn ardaloedd trefol



Cam 1: Mae coed ar hyd yr heol i mewn i Aberystwyth

Trosolwg

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio ochr yn ochr â Grŵp Aberystwyth Gwyrddach, Bwrdd Adfywio Aberystwyth a Chyngor Sir Ceredigion ar gynllun plannu tair blynedd ar y brif ffordd i mewn i Aberystwyth, sef Boulevard St. Brieuc.

Cefndir

Gwnaed ymchwil da i mewn i fanteision niferus plannu coed mewn ardaloedd trefol ac mae'r ddealltwriaeth ohonynt yn dod yn fwy a mwy eang. Mae gwledydd fel yr Unol Daleithiau, ble maen nhw wedi bod yn plannu coed mewn ardaloedd trefol yn fwy helaeth, wedi sylweddoli'r manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ers blyneddau lawer, ac wedi bod yn eu cofnodi. Mae hyn wedi sbarduno Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â mudiadau cymunedol, i edrych yn agosach ar gyfleoedd yng Nghymru.

Roedd y grŵp cymunedol lleol, Grŵp Aberystwyth Gwyrddach, wedi bod yn edrych ar y potensial ar gyfer plannu coed ar hyd Boulevard St Brieuc a Rhodfa'r Parc, oherwydd prin oedd y coed a'r llystyfiant oedd gan y ddau ar hyd heol bwysig i mewn i Aberystwyth.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Law yn llaw â hyn, yn 2010 fe dderbyniodd Aberystwyth £10.3 miliwn o nawdd adfywio gan Lywodraeth Cymru, gan gynnig yr adnoddau a'r cyfle i adnabod meysydd datblygiad yn y dref.

Pam

Gyrrwyd cynigion i adnabod manteision coed a phlannu coed, a'u hybu, gan strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru hefyd. Mae'r strategaeth hon yn anelu at sicrhau bod 'coed a choetiroedd trefol yn cyflwyno amrywiaeth lawn o fanteision, trwy reoli coed sydd eisoes yn bodoli yn well, a phlannu coed newydd mewn ffordd greadigol o fewn prosiectau datblygu ac wrth adfer tir diwydiannol'.

Mae ymchwil helaeth wedi dangos bod coed yn cyflwyno amrywiaeth eang o fanteision, a hynny i unigolion ac i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Fel elfen sengl bwysicaf y seilwaith gwyrdd, mae coed yn medru darparu manteision economaidd, gwell iechyd a lles, mwy o gyfleoedd hamdden ac amgylchedd cyfoethog a chytbwys sy'n rhoi hwb i ddelwedd a ffyniant tref yn y pendraw. Mae coed, er enghraifft, yn gallu cyflwyno manteision busnes trwy wella'r ffordd y mae pobl yn gweld ardal, ac felly mae defnyddwyr yn fodlon talu mwy am nwyddau. Mae coed hefyd yn gostwng yr 'effaith ynys-o-wres drefol' trwy gyfuniad o anweddiad dŵr, adlewyrchu golau'r haul a darparu cysgod, a chynyddu balchder y gymuned a chydlyniad cymdeithasol.

Beth wnaethon nhw

Mae'r ymagwedd at wireddu'r cysyniad wedi bod yn ymdrech ar y cyd. Datblygwyd syniad gwreiddiol Grŵp Aberystwyth Gwyrddach gan Bensaer Tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru, Dafydd Fryer. Lluniodd Dafydd gynnig technegol a dogfen drafod, 'Gwyrddio Ffordd Ddynesu Aberystwyth', ac roedd tipyn o feddwl wedi mynd i mewn iddi. Roedd hefyd wedi llunio braslun o gynllun ar gyfer rhaglen o blannu coed a phrysglwyni. Cyflwynodd hyn i'r partneriaid allweddol, gan hybu'r manteision a chynnig cymorth ymarferol i ddatblygu.

"Sefydlwyd ein grŵp i hybu datblygiad a chadwraeth gofodau gwyrdd yn ardal Aberystwyth. Rydyn ni'n eu gweld fel amwynderau gwerthfawr i'r trigolion eu hunain ac unrhyw un sy'n ymweld â'r ardal. Fe allai'r datblygiad cyffrous hwn drawsnewid yr ardal darged yn rhodfa goediog i groesawu pobl i'r dref."

Meg Kirby, Grŵp Aberystwyth Gwyrddach

Yna, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru animeiddiad o'r rhaglen plannu, a'i gyhoeddi, gan ddangos sut fyddai'r ffordd ddynesu'n edrych wedi cynnwys coed aeddfed.

Fe fu'r partneriaid yn cydweithio i sicrhau nawdd o £375,000, a daeth y mwyafrif ohono o'r Bwrdd Adfywio, gan gydnabod y manteision economaidd a chymdeithasol niferus a ddaw yn sgil y gwaith plannu.

Ar gyfer lleoliadau'r plannu, a'r rhywogaethau, aethpwyd ati i feddwl am 'y goeden iawn, a'r lle iawn' – gan sicrhau na fyddai unrhyw ddifrod i gyfleustodau o dan y ddaear, er enghraifft, a dewis coed gyda chwmpas o 20cm, o leiaf, i ostwng fandaliaeth.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Roedd y cynllun yn cynnwys cyfuniad o rywogaethau brodorol ac egsotig, gyda llinellau o rywogaethau sengl ble'n bosib i atgyfnerthu'r ymdeimlad o rodfa, ac amrywiaeth o siapiau coed a dail cryfion, gan gynnwys rhai gyda lliwiau yn yr hydref a rhai gyda blodau sy'n denu gwenyn.

Ble'r oedd lle, dewiswyd coed mawr ag oes hir, gan mai'r rhain fyddai'n dod â'r mwyaf o fanteision cyffredinol i'r gymdeithas drefol.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

Mae cynnal y momentwm yn hanfodol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, ac mae hefyd yn bwysig i bartneriaid barhau â'u hymroddiad hyd nes cwblhau'r rhaglen plannu 3 blynedd.

Bydd cadw cysylltiadau cryf a thrafodaeth rhwngartneriaid yn sicrhau bod y prosiect yn aros ar y trywydd cywir.

Mae cyfathrebu gwir fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol coed a choetiroedd trefol i randdeiliaid yn her a fydd yn helpu sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn deall beth mae'r prosiect yn medru helpu ei gyflwyno i Aberystwyth.

Beth newidiodd

Roedd Cam 1 (cwblhawyd yn 2013) yn golygu plannu 80 o goed 'lled-aeddfed' ar dir priffordd.

Fe fydd Cam 2 yn canolbwyntio ar yr ardal Parcio a Theithio, ac yn gweithio gyda pherchnogion tir rheilffordd Cwm Rheidol gerllaw. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o gael rhodfa o goed ar hyd y darn hwn, mae prosiect Coed Aber eisoes yn gweithio'n agos gyda chynlluniau newydd Cyngor Tref Aberystwyth ar gyfer ardal sgrialu a hamdden Cae Kronberg.

Ar ddiwedd Cam 3 (a ddylai ddod i ben yn 2015) bydd dehongliad llwybr coed yn cael ei ddatblygu gan gynnwys ysgolion lleol.

Mae'r prosiect eisoes wedi cyflwyno manteision o ran gwell gwaith partneriaeth rhwng grwpiau gwirfoddol, cyrff statudol a chwmnïau preifat, gan ddangos sut maen nhw'n medru cydweithio i drosglwyddo prosiectau a sicrhau nawdd.

Fe fydd y manteision hefyd yn ymestyn tu hwnt i welliannau amgylcheddol amlwg y coed ac yn trosglwyddo gwell tirwedd ac ardal y bydd pobl a busnesau yn elwa ohoni.

Beth ddysgon nhw

Trwy gyfuniad o dystiolaeth argyhoeddiadol a gweledigaeth gref, mae tîm prosiect Coed Aber wedi llwyddo i ddangos bod coed yn rhan hanfodol o'r seilwaith trefol ac nad ydyn nhw yno i wneud i lefydd

edrych yn brafiach yn unig.

Mae wedi cymryd amser, ymdrech a chydweithio gan sawl partner gwahanol, i wireddu'r prosiect. Yn yr astudiaeth gwmpasu dechnegol, arbenigol cafwyd y manylion ymarferol a'r wybodaeth gefndir hanfodol.

Yna, rhoddodd yr animeiddiad gweledol fywyd i'r cynllun er mwyn i fudiadau partner fedru gweld y weledigaeth, ac roedd hyn wedi helpu meithrin cefnogaeth a sbarduno'r prosiect go iawn.

Mae cyfraniad pobl sydd ag angerdd at y prosiect wedi bod yn hanfodol bwysig. Elfennau hanfodol oedd y grŵp cymunedol gweithgar a gwybodus, a chefnogaeth broffesiynol a rôl 'hyrwyddo' pensaer tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru, i gychwyn, a roddodd y pwysau a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r prosiect i'w symud ymlaen at y cam nesaf.

Mae'r prosiect wedi dangos sut mae angen tynnu sylw at fuddion ecosystem coed a choetiroedd trefol, a'u hyrwyddo, ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Nawr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Forest Research i gynnal yr astudiaeth Eco i-Tree gyntaf i mewn i goed trefol yng Nghymru, gan grisiau a meintoli holl fanteision ecosystem coed mewn ardaloedd trefol. Mae i-Tree felly yn cynnig y data gwaelodlin i arddangos gwerth ac i osod blaenoriaethau er mwyn gwneud penderfyniadau'n fwy effeithlon.

Manylion Cyswllt a Dolenni

Barbara Anglezarke
Uwch-Reolwr Coetiroedd i Bobl
Barbara.anglezarke@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Dafydd Fryer
Cyfoeth Naturiol Cymru – Pensaer Tirwedd a Choedwigoedd Trefol, Cyfoeth Naturiol Cymru
dafydd.fryer@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Meg Kirby
Ysgrifennydd, Grŵp Aberystwyth Gwyrddach
fdkirby@tiscali.co.uk

Erthygl ar Newyddion y BBC ar y prosiect
Grŵp Aberystwyth Gwyrddach
Fideo prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru
Adroddiad: Gwyrddio Ffordd Ddynesu Aberystwyth
Coetiroedd i Gymru
i-Tree
Asesiad prosiect peilot Torbay

"Profwyd bod pobl yn manteisio o ymarfer corff a'r cyfle i fwynhau amgylchedd lleol croesawgar, diogel o ansawdd uchel. O bersbectif economaidd, mae'n medru denu mwy o ymwelwyr a thwristiaid ac yn medru hybu buddsoddiad gan y sector busnes."

Trefor Owen,
Cyfarwyddwr Gweithredol
Gwasanaethau Cenedlaethol, CNC

"Nid moethusrwydd yw coed a choetiroedd trefol – ond anghenraid."

Dafydd Fryer, Pensaer Tirwedd a
Choedwigoedd Trefol, Cyfoeth Naturiol
Cymru

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>